OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3573

## Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

**Ffynonellau protein a chynhwysion bwyd eraill sy'n addas i fabanod o'u genedigaeth (fformiwla fabanod)**

**6.**—(1) Rhaid i fformiwla fabanod fod wedi'i gweithgynhyrchu—

(a) o'r ffynonellau protein a bennir ym mhwynt 2 o Atodiad I; a

(b) o gynhwysion bwyd eraill y cafodd eu haddasrwydd at ddefnydd maethol penodol gan fabanod o'u genedigaeth ei sefydlu drwy ddata gwyddonol a dderbynir yn gyffredinol ac a gafodd ei ddangos yn unol â pharagraff (2).

(2) Rhaid i addasrwydd gael ei ddangos drwy adolygiad systematig o'r data sydd ar gael sy'n ymwneud â'r buddiant a ddisgwylir ac ag ystyriaethau diogelwch yn ogystal â thrwy astudiaethau priodol, pan fo angen hynny, a wnaed gan ddilyn canllawiau arbenigol sy'n dderbyniol yn gyffredinol ar lunio a chynnal astudiaethau o'r fath.